Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2025



www.senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:


**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**



**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2025**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)

## Crynodeb o'r Bil

Ionawr 2025

**Awdur:**
Christian Tipples

Bydd y **Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc.** yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol yng Nghymru i godi ardoll ar ymwelwyr dros nos sy'n aros mewn llety ymwelwyr yn eu hardal. Bydd yr ardoll **yn ddisgresiynol**, a mater i awdurdodau lleol fydd penderfynu a ddylent ei chyflwyno ar ôl ymgynghori â'u cymunedau a'u busnesau lleol.

Bydd yr ardoll yn **dâl fesul person, fesul noson**, a fydd yn cael ei godi ar bawb sy'n talu i aros mewn llety dros nos, ac y **bydd cap** o 31 o ddiwrnodau arno, ac eithrio ar rai arosiadau dros nos lle nad yw'r ardoll yn daladwy neu'n destun ad-daliad. Bydd yn cael ei chasglu a'i rheoli gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC).

Mae'r Bil hefyd yn sefydlu **cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr** sy'n gweithredu yng Nghymru. Mae'n ofynnol i ddarparwyr gofrestru, ni waeth a yw'r ardal awdurdod lleol y maent yn gweithredu ynddi wedi gweithredu'r ardoll ai peidio. Mae'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i gyhoeddi gwybodaeth o'r gofrestr.

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi darpariaethau'r Bil i gefnogi'r gwaith o graffu ar y ddeddfwriaeth.

# Cynnwys

**1. Cyflwyniad** ........ **1**

**2. Cipolwg ar y Bil** ........ **2**

**3. Crynodeb o'r darpariaethau** ........ **3**

Rhan 1 – Trosolwg o'r Ddeddf a thermau allweddol a ddefnyddir yn y Ddeddf ........ 3

Llety ymwelwyr ........ 3

Darparwr llety ymwelwyr ........ 3

Rhan 2 – Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ........ 3

Dyletswydd i gynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr ........ 3

Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig ........ 4

Cyhoeddi gwybodaeth sydd yn y gofrestr ........ 4

Cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth atodol etc ........ 4

Rhan 3 – Ardoll ymwelwyr ........ 5

Pennod 1 – Cymhwyso a gweithredu'r ardoll, a chyfraddau'r ardoll ........ 5

Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr ........ 5

Arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr ........ 5

Atebolrwydd am dalu'r ardoll ........ 5

Cyfrifo swm yr ardoll sy'n daladwy ........ 6

Dyfarnu pa gyfradd sy'n gymwys ........ 6

Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll ........ 6

Cais am ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll ........ 7

Pennod 2 – Rhoi cyfrif am yr ardoll, a thalu'r ardoll ........ 7

Dyletswydd i ddychwelyd ffurflen ardoll mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu ........ 7

Ffurflen flynyddol neu chwarterol ........ 8

Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni blynyddol a ffurflenni chwarterol ........ 8

Talu'r ardoll ........ 9

ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll ........ 9

Pennod 3 – Defnydd prif gynghorau o enillion yr ardoll ........ 9

Cyfrif prif gyngor ar gyfer enillion yr ardoll ........ 9

Defnyddio enillion yr ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfannau ........ 9

Pennod 4 – Cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll ........ 10

Ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll ........ 10

Cyflwyno'r ardoll a newid neu ddiddymu'r ardoll ........ 11

Arosiadau dros nos nad effeithir arnynt gan gyflwyno neu newid yr ardoll ........ 11

Dehongli'r Bennod ........ 12

Pennod 5 – Achosion arbennig ........ 12

Ystyr "busnes perthnasol" yn y Bennod hon ........ 12

Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig ........ 12

Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig ........ 12

Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd ..... 12

Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd ..... 13

Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol ..... 13

Pennod 6 – Darpariaeth amrywiol sy'n ymwneud â'r ardoll ..... 13

Llety ymwelwyr mewn mangre o fewn ardal mwy nag un prif gyngor ..... 13

Trefniadau â thrydydd parti i gasglu'r ardoll etc. ar ran y darparwr ..... 13

Pŵer Gweinidogion Cymru i osod gofynion o ran hysbysebu a bilio etc. ..... 14

Prif gyngor yn arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon etc ..... 14

Rhan 4 – Darpariaeth amrywiol a chyffredinol ..... 14

Canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ..... 14

Pwer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd ..... 15

Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc ..... 15

Rheoliadau o dan y Ddeddf hon ..... 15

Dehongli ..... 15

Dod i rym ..... 15

Enw byr ..... 15

Atodlen 1 – Diwygio Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ..... 15

**4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth ..... 16**

**5. Adolygiad ar ôl gweithredu ..... 17**

**6. Goblygiadau ariannol y Bil....18**

Darparwyr llety ymwelwyr....19

Ymwelwyr....20

Awdurdodau lleol....20

Llywodraeth Cymru....21

Awdurdod Cyllid Cymru....22

Costau ac anfanteision heb eu meintioli....22

Manteision....22

**7. Craffu ar y Bil....23**

Cyfnod 1....23

Cyfnod 2 a thu hwnt....23

# 1. Cyflwyniad

Cyflwynwyd y **Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc**. i'r Senedd ar 25 Tachwedd 2024.

Yn ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer tymor y Senedd hon, gwnaeth Llywodraeth Cymru **ymrwymo i** 'gyflwyno deddfwriaeth sy'n caniatáu i awdurdodau lleol godi ardoll twristiaeth'. Roedd y Cytundeb Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn 2021 **hefyd yn cyfeirio at** gyflwyno ardollau twristiaeth lleol.

Wrth gyflwyno'r Bil i'r Senedd, **dywedodd** Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg ("yr Ysgrifennydd Cabinet") fod y Bil yn rhoi pŵer caniataol i awdurdodau lleol i benderfynu a ydynt yn dewis cyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardaloedd lleol ai peidio, yn seiliedig ar eu hamgylchiadau lleol.

Yn ei ddatganiad ysgrifenedig i gyflwyno'r Bil, cyfeiriodd yr Ysgrifennydd Cabinet at **ardollau ymwelwyr mewn gwledydd eraill**, gan ddweud:

> Mae ardollau ymwelwyr yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi cymunedau a diogelu'r amgylchedd ledled y byd, ac mae'r manteision gwirioneddol sy'n deillio o ailfuddsoddi arian a godir drwy ardollau ymwelwyr i'w gweld mewn nifer mawr o wledydd. Credwn fod modd efelychu'r llwyddiant hwnnw yng Nghymru.

Mae Memorandwm Esboniadol y Bil ('y Memorandwm') **yn nodi y bydd yr ardoll** yn dâl fesul person, fesul noson, a fydd yn cael ei godi ar bawb sy'n talu i aros mewn llety dros nos, ac a fydd yn cael ei gasglu a'i reoli gan ACC. Bydd **cap o 31 o ddiwrnodau** ar nifer y nosweithiau y gellir codi amdanynt a bydd rhai arosiadau dros nos wedi'u heithrio, yn rhai lle nad yw'r ardoll yn daladwy neu'n destun ad-daliad.

Mae'r Bil **hefyd yn sefydlu** cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n gweithredu yng Nghymru, a fydd yn cynnwys manylion am y math o safle y maent yn ei weithredu a'i leoliad ledled Cymru. Bydd yn ofynnol i ddarparwyr gofrestru, ni waeth a yw'r ardal awdurdod lleol y maent yn gweithredu ynddi wedi gweithredu'r ardoll ai peidio.

Mae'r Memorandwm **yn mynd ymlaen i ddweud**:

> Mae pŵer hefyd i Weinidogion Cymru gyhoeddi gwybodaeth sy'n deillio o'r gofrestr. Efallai y bydd yr wybodaeth hon o ddiddordeb i awdurdodau lleol, ymwelwyr, busnesau ac ymchwilwyr.

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Cabinet **roi tystiolaeth** i'r Pwyllgor Cyllid ar 5 Rhagfyr

2024. Gwnaeth y Pwyllgor wedi **lansio ymgynghoriad** ar y Bil a fydd yn cau ar 10 Ionawr 2025.

# 2. Cipolwg ar y Bil

Mae 45 o adrannau i'r Bil wedi'u trefnu'n bedair rhan (chwe phennod yn rhan 3) ac un atodlen.

- **Rhan 1** - Trosolwg o'r Ddeddf a thermau allweddol a ddefnyddir yn y Ddeddf
- **Rhan 2** - Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr
- **Rhan 3** - Ardoll ymwelwyr
  - **Pennod 1** - Cymhwyso a gweithredu'r ardoll, a chyfraddau'r ardoll
  - **Pennod 2** - Rhoi cyfrif am yr ardoll, a thalu'r ardoll
  - **Pennod 3** - Defnydd prif gynghorau o enillion yr ardoll
  - **Pennod 4** - Cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll
  - **Pennod 5** - Achosion arbennig
  - **Pennod 6** - Darpariaeth amrywiol sy'n ymwneud â'r ardoll
- **Rhan 4** - Darpariaeth amrywiol a chyffredinol
- **Atodlen 1** - Diwygio Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Mae'r **Memorandwm yn rhestru** diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael, manylion yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r is-ddeddfwriaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Bil. Mae hefyd yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol ('yr Asesiad'), **sy'n nodi** costau a manteision amcangyfrifedig y ddeddfwriaeth.

Mae'r Datganiad o Fwriad Polisi **yn rhoi rhagor o fanylion** am yr is-ddeddfwriaeth yn y Bil **sy'n bwriadu** helpu pwyllgorau yn ystod y cam craffu ar y Bil.

# 3. Crynodeb o'r darpariaethau

## Rhan 1 – Trosolwg o'r Ddeddf a thermau allweddol a ddefnyddir yn y Ddeddf

Mae adran 1 **yn dangos y ffordd** y mae Rhannau'r Bil wedi'u trefnu ac mae'n rhoi disgrifiad byr o'r hyn y mae pob Rhan yn ei wneud.

### Llety ymwelwyr

Mae adran 2 **yn diffinio "llety ymwelwyr"** ar gyfer y gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr a'r ardoll ymwelwyr ('yr ardoll'). Mae'n diffinio llety ymwelwyr, ynghyd â'r eithriadau megis safle Sipsiwn a Theithwyr neu gartref symudol, llestr neu gerbyd arall nad yw wedi'i leoli'n barhaol neu'n lled-barhaol mewn un lle. Mae hefyd yn cynnwys pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r rhestr o ddarparwyr llety ymwelwyr.

### Darparwr llety ymwelwyr

Mae adran 3 **yn datgan bod** person yn ddarparwr llety ymwelwyr at ddibenion y Bil os yw'r person hwnnw, yng nghwrs masnach neu fusnes, yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru sy'n caniatáu i un neu ragor o bobl aros yn y llety am o leiaf un noson, a'i fod yn feddiannydd ar y fangre.

## Rhan 2 – Cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

### Dyletswydd i gynnal cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr

Mae adran 4 **yn gosod dyletswydd** ar Weinidogion Cymru i gadw cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Rhaid i'r gofrestr gynnwys y canlynol:

- enw'r darparwr llety ymwelwyr;
- unrhyw enw masnachu a ddefnyddir gan y darparwr llety ymwelwyr;
- cyfeiriad priodol y darparwr llety ymwelwyr;
- datganiad ynghylch a yw'r darparwr llety ymwelwyr yn unigolyn, yn bartneriaeth, yn gorff corfforedig neu'n gorff anghorfforedig;
- y math o lety; ac
- enw, cyfeiriad ac ardal prif gyngor y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr hwnnw.

Mae adran 4 **hefyd yn rhoi** pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i'w

galluogi i ychwanegu, amrywio neu ddileu disgrifiad o'r wybodaeth sy'n ofynnol yn y gofrestr.

## Dyletswydd ar ddarparwyr llety ymwelwyr i fod yn gofrestredig

Mae adran 5 **yn datgan bod** rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr, fel y'u diffinnir yn adran 3, fod yn gofrestredig ar y gofrestr a gedwir gan Weinidogion Cymru mewn cysylltiad â'r llety ymwelwyr y maent naill ai'n ei ddarparu neu'n cynnig ei ddarparu.

Mae **hefyd yn rhoi'r** pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i esemptio disgrifiadau penodol o ddarparwr llety ymwelwyr.

## Cyhoeddi gwybodaeth sydd yn y gofrestr

Mae adran 6 **yn caniatáu i** Weinidogion Cymru gyhoeddi, fel y bernir ei bod yn briodol, unrhyw wybodaeth sy'n deillio o'r gofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr. Mae hyn **yn cynnwys** y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt: enwau a chyfeiriadau mangreoedd llety ymwelwyr yng Nghymru, y math o lety a ddarperir, a manylion cofrestredig darparwyr llety ymwelwyr.

## Cofrestru: pwerau i wneud darpariaeth atodol etc.

Mae adran 7 **yn rhoi** pŵer i Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau i wneud darpariaeth atodol ynghylch y gofrestr a gofynion cofrestru. Gall hyn gynnwys:

- darpariaeth ar gyfer partneriaethau a chyrff anghorfforedig;
- gweithdrefnau cofrestru, (gan gynnwys amrywio a chanslo cofrestriad);
- rhannu data; a
- mesurau gorfodi, gan gynnwys troseddau neu gosbau am beidio â chydymffurfio, adolygiadau ac apelau.

Ar 26 Tachwedd 2024, ar ôl cyflwyno'r Bil, **ysgrifennodd** yr Ysgrifennydd Cabinet at y Pwyllgor Cyllid gan amgáu **darpariaethau cofrestru dangosol** y mae'r llythyr yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu eu cyflwyno yng nghyfnod 2.

Mae'r darpariaethau ychwanegol a gyflenwir gan y Llywodraeth **yn sefydlu system o gosbau** i ddarparwyr llety ymwelwyr sy'n methu â chydymffurfio â'r gofyniad i gofrestru neu sy'n methu â darparu gwybodaeth i gywiro anghywirdeb yn y gofrestr.

Mae'r darpariaethau **hefyd yn cynnwys hawliau apelio** i dribiwnlys ar

benderfyniadau ar gosbau a **phwerau ychwanegol i wneud rheoliadau** i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch symiau cosbau ac asesu.

## Rhan 3 – Ardoll ymwelwyr

## Pennod 1 – Cymhwyso a gweithredu'r ardoll, a chyfraddau'r ardoll

### Pŵer prif gyngor i gyflwyno ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr

Mae adran 8 **yn nodi** y caiff 'prif gyngor' (awdurdod lleol) godi ardoll ar arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr yn ei ardal. Mae'r ardoll i'w chasglu a'i rheoli gan ACC ar ran prif gyngor. Rhaid i ACC gasglu a rheoli'r ardoll yn unol â darpariaethau'r Bil a **Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** ('Deddf 2016').

### Arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr

Mae adran 9 **yn diffinio arhosiad dros nos** mewn llety ymwelwyr at ddibenion ardoll sy'n dod yn daladwy. Mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd pan fydd unigolion yn preswylio am un neu ragor o nosweithiau o dan gontract, pan fydd y llety wedi'i ddarparu yng nghwrs masnach neu fusnes, a phan nad y llety yw prif breswylfa'r unigolion hynny.

Mae'r adran **yn cynnwys eithriadau** i'r amgylchiadau y bernir bod arhosiad dros nos yn digwydd odanynt. Mae'r rhain yn cynnwys arosiadau sy'n hwy nag 31 o nosweithiau, a llety sydd wedi'i drefnu o dan ddeddfwriaeth benodol sy'n ymwneud â mewnfudo, lloches, mechnïaeth neu brawf.

Mae adran 9 hefyd **yn galluogi Gweinidogion Cymru**, drwy reoliadau, i ddiwygio'r disgrifiadau o amgylchiadau pryd y mae arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd neu pryd nad yw arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr yn digwydd.

### Atebolrwydd am dalu'r ardoll

Mae adran 10 **yn nodi** mai'r darparwr llety ymwelwyr sy'n atebol am dalu'r ardoll pan fydd y person yn cychwyn ei arhosiad yn y llety.

## Cyfrifo swm yr ardoll sy'n daladwy

Mae adran 11 **yn amlinellu'r** dull ar gyfer cyfrifo swm yr ardoll sydd i'w godi mewn cysylltiad ag arhosiad. Cyfrifir swm yr ardoll drwy, yn gyntaf, ganfod nifer y personau sydd â hawlogaeth i aros a lluosi'r rhif hwnnw â chyfanswm nifer y nosweithiau y mae ganddynt hawlogaeth i aros. Yna, caiff y rhif hwnnw ei luosi â'r gyfradd gymwys.

## Cyfraddau'r ardoll

Mae adran 12 **yn nodi** tair cyfradd yr ardoll: y gyfradd is o £0.75; y gyfradd uwch o £1.25; a'r gyfradd o ddim. Mae'r adran hefyd yn tynnu sylw at y posibilrwydd y gall prif gyngor hefyd gyflwyno premiwm ar y gyfradd (a amlinellir yn adran 14).

Mae hefyd **yn rhoi'r** pŵer i Weinidogion Cymru i newid y gyfradd is, y gyfradd uwch, neu'r ddwy gyfradd, drwy reoliadau.

## Dyfarnu pa gyfradd sy'n gymwys

Mae adran 13 **yn diffinio pa** fathau o lety ymwelwyr sy'n ddarostyngedig i gyfradd is, cyfradd uwch, neu gyfradd o ddim yr ardoll. Mae'r gyfradd is yn gymwys i arosiadau mewn hosteli a'r rhai sy'n aros mewn pebyll ar safleoedd gwersylla. Mae'r gyfradd uwch yn gymwys i bob math arall o lety ymwelwyr oni bai bod y gyfradd o ddim yn gymwys.

**Gellir cymhwyso** cyfradd o ddim i arosiadau dros nos sydd wedi'u darparu neu eu trefnu gan awdurdod tai lleol mewn llety ymwelwyr ar gyfer y rhai sy'n ddigartref.

Mae adran 13 hefyd **yn darparu pwerau i wneud rheoliadau** i Weinidogion Cymru ychwanegu mathau newydd o lety ymwelwyr y mae pob cyfradd yn gymwys iddo, neu ddiwygio neu ddileu'r mathau presennol, a nodi gofynion tystiolaeth y mae rhaid eu bodloni cyn y gall darparwr gymhwyso'r gyfradd o ddim neu'r gyfradd is. Caiff rheoliadau hefyd wneud trefniadau ar gyfer dyroddi talebau at ddiben profi bod y gyfradd o ddim yn gymwys i arhosiad dros nos penodol mewn llety ymwelwyr, ac mewn perthynas â dyroddi talebau o'r fath.

## Ychwanegu premiwm at gyfradd yr ardoll

Mae adran 14 **yn galluogi** prif gyngor i ychwanegu swm ychwanegol o ardoll (sef premiwm) at gyfradd is a/neu gyfradd uwch yr ardoll i'w chymhwyso yn ei ardal. Mae hefyd yn **caniatáu i** Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, gyfyngu ar swm y premiwm y caiff prif gyngor ei godi.

### Cais am ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll

Mae adran 15 **yn amlinellu'r broses** ar gyfer gwneud cais am ad-daliad o swm sy'n gyfwerth â'r ardoll sy'n daladwy am arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr.

Mae hefyd **yn datgan** y caiff person wneud cais i ACC am ad-daliad os talodd yr ardoll am arhosiad dros nos mewn llety ymwelwyr:

- os arhosodd y person yn y llety oherwydd nad oedd yn gallu preswylio yn ei unig breswylfa neu yn ei brif breswylfa oherwydd risg i'w iechyd, i'w ddiogelwch, neu i'w les;
- os darparwyd y llety i berson a oedd, ar adeg yr arhosiad, yn ddigartref o fewn ystyr adran 55 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014; neu
- Roedd y person a arhosodd dros nos yn derbyn budd-dal anabledd ac roedd person arall gyda nhw.

Mae adran 15 **yn ei gwneud yn ofynnol** gwneud cais am ad-daliad o swm sy'n gyfwerth â'r ardoll o fewn 30 o ddiwrnodau i'r diwrnod olaf yr oedd gan y person hawlogaeth i aros yn y llety.

O dan yr adran hon, **os caniateir y cais**, bydd ACC yn ad-dalu swm sy'n gyfwerth â'r ardoll sy'n daladwy am yr arhosiad. Rhaid i ACC hefyd dalu swm y mae'n ystyried y dylid ei dalu os nad yw'r cais cyfan ar gyfer pob person a/neu bob noson o'r arhosiad yn briodol.

Mae adran 15 **yn diffinio'r budd-daliadau anabledd** y byddai'n ofynnol i unigolyn yr oedd person arall wedi mynd gydag ef ar arhosiad dros nos ei gael er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am ad-daliad.

Mae'r adran hon **hefyd yn rhoi** pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau i ychwanegu, dileu neu newid disgrifiadau o amgylchiadau ar gyfer gwneud cais, neu i ddiwygio'r diffiniad o 'budd-dal anabledd'.

## Pennod 2 – Rhoi cyfrif am yr ardoll, a thalu'r ardoll

### Dyletswydd i ddychwelyd ffurflen ardoll mewn cysylltiad â chyfnod cyfrifyddu

Mae adran 16 **yn ei gwneud yn ofynnol** i ddarparwr llety ymwelwyr ddychwelyd ffurflen i ACC ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu y mae'n gweithredu busnes llety ymwelwyr (pa un a oes unrhyw arosiadau dros nos wedi digwydd yn y cyfnod

hwnnw ai peidio).

Mae'n **datgan** bod rhaid i'r ffurflen gynnwys asesiad o swm yr ardoll sy'n daladwy am y cyfnod cyfrifyddu, a hefyd naill ai datganiad gan y darparwr fod yr wybodaeth yn y ffurflen yn gywir neu ardystiad gan asiant y darparwr fod y darparwr wedi gwneud datganiad o'r fath i'r perwyl hwnnw.

Mae'r adran hon hefyd **yn nodi dyddiadau ffeilio ar gyfer** ffurflenni blynyddol: 30 Ebrill yn y flwyddyn ariannol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi. Ar gyfer ffurflenni chwarterol, y dyddiad ffeilio yw'r diwrnod olaf o'r mis ar ôl diwedd y cyfnod cyfrifyddu.

## Ffurflen flynyddol neu chwarterol

O dan adran 17, **caiff darparwyr llety ymwelwyr ddewis** dychwelyd ffurflenni blynyddol neu ffurflenni chwarterol ar gyfer blwyddyn ariannol os na ddisgwylir i'w hatebolrwydd o ran yr ardoll fod yn fwy na £1,000, neu os oedd eu hatebolrwydd am y flwyddyn ariannol flaenorol yn fwy na £1,000.

Fodd bynnag, os oes disgwyl i atebolrwydd darparwr o ran yr ardoll fod yn fwy na £1,000 ar gyfer y flwyddyn honno, neu os oedd ei atebolrwydd yn fwy na £1,000 yn y flwyddyn flaenorol, rhaid i'r darparwr ddychwelyd ffurflenni chwarterol.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, **yn gallu diwygio** swm y trothwy ar gyfer ffeilio yn flynyddol neu'n chwarterol a phennu'r wybodaeth y mae rhaid i ddarparwr llety ymwelwyr ei darparu i ACC os yw'n dymuno dychwelyd ffurflenni blynyddol.

Ni chaiff newid o rwymedigaeth i ddychwelyd yn flynyddol i rwymedigaeth i ddychwelyd yn chwarterol, neu i'r gwrthwyneb, **gymryd effaith** ond ar ddechrau blwyddyn ariannol. Fodd bynnag, os oes gan ddarparwr bwyntiau cosb, ni chaiff y darparwr newid pa mor aml y mae'n dychwelyd ffurflenni.

## Ystyr "cyfnod cyfrifyddu": ffurflenni blynyddol a ffurflenni chwarterol

Mae adrannau 18 a 19 yn diffinio'r cyfnod cyfrifyddu **ar gyfer ffurflenni blynyddol** a **ffurflenni chwarterol**. Mae hyn yn cynnwys cyfnodau ar gyfer cychwyn gweithrediadau neu roi'r gorau i weithrediadau yn ystod blwyddyn ariannol neu chwarter calendr.

### Talu'r ardoll

Mae adran 20 **yn nodi'r** rheolau ar gyfer darparwyr llety ymwelwyr yn talu'r ardoll ymwelwyr i ACC. Rhaid i ddarparwyr llety ymwelwyr dalu swm yr ardoll a bennir yn eu ffurflen erbyn y dyddiad ffeilio ar gyfer y ffurflen.

Mae'r adran **hefyd yn cyfeirio** at ddarpariaethau ychwanegol yn Neddf 2016 sy'n mynd i'r afael â thaliadau'r ardoll y mae'n ofynnol i ddarparwyr llety ymwelwyr eu gwneud mewn sefyllfaoedd eraill, fel cywiriadau i ffurflen dreth, diwygiadau a wneir i ffurflen dreth yn ystod neu ar ôl cwblhau ymholiad, a dyfarniadau ac asesiadau ACC.

### ACC yn casglu ac yn rheoli'r ardoll

Mae adran 21 **yn cyflwyno Atodlen 1** i'r Bil, sy'n cynnwys diwygiadau i Ddeddf 2016 ynghylch swyddogaethau ACC mewn perthynas â'r ardoll a diwygiadau amrywiol eraill i'r Ddeddf honno.

## Pennod 3 – Defnydd prif gynghorau o enillion yr ardoll

### Cyfrif prif gyngor ar gyfer enillion yr ardoll

Mae adran 22 **yn ei gwneud yn ofynnol** i brif gyngor sydd wedi cyflwyno ardoll ymwelwyr gynnal cyfrif ar wahân ar gyfer enillion net yr ardoll honno a dalodd ACC iddo.

### Defnyddio enillion yr ardoll ar gyfer rheoli a gwella cyrchfannau

Mae adran 23 **yn ei gwneud yn ofynnol i'r** prif gyngor ddefnyddio'r refeniw a gynhyrchir gan yr ardoll at ddibenion rheoli a gwella cyrchfannau yn ei ardal.

Mae **hefyd yn darparu** rhestr, nad yw'n gynhwysfawr, o'r mathau o wariant gan y prif gyngor a fydd yn bodloni'r gofyniad am wariant ar reoli a gwella cyrchfannau, sy'n cynnwys:

- lliniaru'r effaith y mae ymwelwyr yn ei chael;
- cynnal a hybu'r defnydd o'r Gymraeg;
- hybu a chefnogi twf economaidd cynaliadwy twristiaeth a mathau eraill o deithio;
- darparu, cynnal a gwella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau i'w defnyddio gan ymwelwyr (pa un a ydynt hefyd i'w defnyddio gan bobl leol ai peidio).

### Adroddiad ar ddefnyddio enillion yr ardoll

Mae adran 24 **yn gosod cyfrifoldeb** ar brif gyngor i gyhoeddi adroddiad ar enillion yr ardoll ar gyfer pob blwyddyn ariannol y codir yr ardoll yn ei ardal.

**Rhaid i'r adroddiad gynnwys gwybodaeth** am swm yr ardoll a gasglwyd, enillion yr ardoll (ar ôl i ACC dynnu costau casglu'r ardoll) a sut y mae'r enillion wedi cael eu gwario, neu sut y byddant yn cael eu gwario, ar reoli a gwella cyrchfannau.

**Rhaid i'r cyngor gyhoeddi'r** adroddiad ar ei wefan cyn gynted â phosibl ar ôl 30 Mehefin yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi a heb fod yn hwyrach na diwedd y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.

Mae adran 24 **hefyd yn galluogi** Gweinidogion Cymru i nodi gofynion drwy reoliadau ar gyfer cynnwys adroddiadau prif gynghorau, ac i newid nifer yr adroddiadau y mae rhaid eu cyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol, pa mor aml y'u cyhoeddir, a'r dyddiad erbyn pryd y mae rhaid eu cyhoeddi.

## Pennod 4 – Cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll

### Ymgynghori cyn cyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll

Mae adran 25 **yn darparu'r camau** y mae rhaid i brif gyngor eu cymryd cyn iddo gyflwyno, newid neu ddiddymu'r ardoll, neu unrhyw bremiwm, yn ei ardal.

Yn ogystal â **hysbysu ACC** am ei fwriadau mewn cysylltiad â'r ardoll, rhaid i'r prif gyngor gyhoeddi adroddiad sy'n nodi'r cynigion perthnasol a'r goblygiadau ariannol a ragwelir ganddynt. Rhaid i'r prif gyngor hefyd anfon ei adroddiad i ACC.

**Rhaid i'r prif gyngor ymgynghori â chyfres** o ymgyngoreion gorfodol, neu bersonau priodol eraill, am ei gynigion mewn cysylltiad â'r ardoll. Mae'r ymgyngoreion hynny'n cynnwys:

- pobl leol;
- cynghorau tref a chymuned;
- y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer ardal y prif gyngor;
- prif gynghorau ar gyfer ardal sy'n cyffinio;
- awdurdodau parciau cenedlaethol perthnasol os yw ardal y prif gyngor yn cynnwys unrhyw ran o barc cenedlaethol;

- cyd-bwyllgorau corfforedig y mae'r prif gyngor yn aelod ohonynt; a
- sefydliadau sy'n cynrychioli busnesau sy'n gweithio ym maes twristiaeth, neu sy'n ymwneud â gweithgareddau sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, neu sy'n hybu twristiaeth, yn ardal y prif gyngor.

Ar ôl ystyried safbwyntiau a fynegwyd yn ystod yr ymgynghoriad, **rhaid i'r prif gyngor wedyn hysbysu** ACC ynghylch a yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'i gynigion mewn perthynas â'r ardoll, a rhaid iddo gyhoeddi adroddiad terfynol yn cadarnhau a fydd yn bwrw ymlaen â'r cynigion (neu'r cynigion diwygiedig), ac anfon yr adroddiad hwnnw i ACC.

**Rhaid i'r adroddiad terfynol hefyd gynnwys** crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Cyflwyno'r ardoll a newid neu ddiddymu'r ardoll

Mae adran 26 **yn amlinellu'r** broses ar gyfer prif gyngor yn cyflwyno, newid, neu ddiddymu'r ardoll ymwelwyr (neu'r premiwm) ar ôl iddo gydymffurfio â gofynion adran 25.

**Rhaid i'r prif gyngor gyhoeddi hysbysiad** sy'n manylu ar y camau perthnasol sydd i'w cymryd, gan gynnwys: cyfraddau'r ardoll (oni bai bod yr ardoll i'w diddymu), y dyddiad y daw ardoll yn effeithiol, sef naill ai bod ardoll yn dod i rym, yn peidio â chael effaith, neu'n newid yn yr ardal, ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall.

Rhaid i'r **dyddiad y daw'r ardoll yn effeithiol**, sef bod yr ardoll yn dod i rym neu'n peidio â chael effaith, fod o leiaf 12 mis ar ôl cyhoeddi'r hysbysiad, neu gyfnod byrrach os cytunir arno gan y prif gyngor ac ACC, a rhaid mai naill ai 1 Ebrill neu 1 Hydref yw'r dyddiad hwnnw.

Rhaid i **newidiadau i'r ardoll** (h.y. cyflwyno, diddymu neu newid premiwm) gael eu cyhoeddi o leiaf 6 mis ymlaen llaw a rhaid iddynt gymryd effaith ar naill ai 1 Ebrill neu 1 Hydref.

## Arosiadau dros nos nad effeithir arnynt gan gyflwyno neu newid yr ardoll

Mae adran 27 **yn amlinellu effaith** cyflwyno neu newid yr ardoll ar arosiadau dros nos presennol.

**Nid yw'r ardoll yn gymwys** os gwnaed y contract perthnasol ar gyfer yr arhosiad dros nos cyn y dyddiad y penderfynodd y prif gyngor gyflwyno'r ardoll.

Os oes **newid i'r ardoll**, nid yw'n gymwys i arhosiad dros nos os gwnaed y contract perthnasol cyn y dyddiad y penderfynodd y prif gyngor newid yr ardoll.

### Dehongli'r Bennod

Mae adran 28 **yn darparu diffiniadau** a dehongliadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn y Bennod, gan gynnwys "pobl leol" ac "enillion yr ardoll", ac yn nodi ymhle y diffinnir cyfeiriadau at newid yr ardoll.

## Pennod 5 – Achosion arbennig

### Ystyr "busnes perthnasol" yn y Bennod hon

Mae adran 29 **yn diffinio 'busnes perthnasol'** at ddiben y Bil, sef busnes, neu ran o fusnes, y mae person, yng nghwrs y busnes hwnnw, yn darparu, neu'n cynnig darparu, llety ymwelwyr mewn mangre yng Nghymru ac yn feddiannydd ar y fangre lle y darperir y llety ymwelwyr.

### Dyletswyddau ac atebolrwyddau partneriaethau a chyrff anghorfforedig

Mae adran 30 **yn amlinellu cyfrifoldebau** ac atebolrwyddau partneriaid ac aelodau rheoli cyrff anghorfforedig mewn perthynas â'r ardoll

### Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch partneriaethau a chyrff anghorfforedig

Mae adran 31 **yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru** i wneud rheoliadau i ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ardoll ynglŷn ag achosion pan fo personau yn cynnal busnes mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig, i ddiddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio fel arall.

### Marwolaeth, analluedd ac ansolfedd

Mae adran 32 **yn amlinellu'r broses** a'r gofynion ynghylch cyfrifoldeb am yr ardoll a'r gofynion hysbysu cysylltiedig ar gyfer person ("A") sy'n cynnal busnes perthnasol person arall ("B") sydd wedi marw, wedi mynd yn analluog, neu wedi dod yn ddarostyngedig i weithdrefn ansolfedd.

### Pŵer i wneud darpariaeth bellach ynghylch marwolaeth, analluedd ac ansolfedd

Mae adran 33 **yn datgan y caiff Gweinidogion Cymru**, drwy reoliadau, ychwanegu at unrhyw ddarpariaeth a wneir gan ddarn o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ardoll yng nghyswllt marwolaeth, analluedd ac ansolfedd, diddymu darpariaeth o'r fath, ei dirymu, neu ei diwygio.

### Pŵer i wneud darpariaeth ynglŷn â throsglwyddo busnesau fel busnesau gweithredol

Mae adran 34 **yn darparu y caiff** Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, sicrhau bod deddfwriaeth yn parhau i fod yn gymwys pan drosglwyddir busnes perthnasol o un person i un arall fel busnes gweithredol.

Caiff y rheoliadau **gyflwyno cosbau** am fethiannau i gydymffurfio â'r rheoliadau a chânt hefyd ddarparu ar gyfer adolygiadau ac apelau.

Caiff y rheoliadau **hefyd ddiwygio neu gymhwyso** (gydag addasiadau neu hebddynt) unrhyw ddeddfiad sy'n ymwneud â'r ardoll.

## Pennod 6 – Darpariaeth amrywiol sy'n ymwneud â'r ardoll

### Llety ymwelwyr mewn mangre o fewn ardal mwy nag un prif gyngor

Mae adran 35 **yn datgan, os nad yw'r fangre** lle y darperir llety ymwelwyr yn gyfan gwbl o fewn ardal un prif gyngor, fod y fangre i'w thrin at ddibenion yr ardoll fel pe bai yn yr ardal lle y mae'r rhan fwy neu'r rhan fwyaf o'r fangre.

### Trefniadau â thrydydd parti i gasglu'r ardoll etc. ar ran y darparwr

Mae adran 36 **yn amlinellu cyfrifoldebau** darparwr llety ymwelwyr mewn perthynas â'r ardoll os yw'n gwneud trefniadau i un neu ragor o bersonau gasglu'r ardoll a'i thalu i ACC, neu ddychwelyd ffurflenni ardoll ymwelwyr, ar ran y darparwr. Caiff hyn gynnwys, er enghraifft, asiantiaid teithio ar-lein neu gyfrifwyr.

Mae'r adran **hefyd yn cadarnhau y** gellir gwneud trefniadau i drydydd parti gasglu symiau, ffeilio ffurflenni ardoll ymwelwyr ffeil a dyroddi ad-daliadau o dan yr amgylchiadau hynny.

### Pŵer Gweinidogion Cymru i osod gofynion o ran hysbysebu a bilio etc.

Mae adran 37 **yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru** i wneud rheoliadau er mwyn gosod gofynion ar ddarparwyr llety ymwelwyr mewn perthynas ag anfonebu am arhosiad yr ymwelwyr, a darparu gwybodaeth mewn perthynas â bodolaeth, natur a swm yr ardoll.

Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, **hefyd osod** sancsiynau sifil, gan gynnwys cosbau ariannol, gofynion yn ôl disgresiwn, hysbysiadau stop ac ymgymeriadau gorfodi, ar y darparwyr llety ymwelwyr hynny sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion a nodir mewn unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon, a chânt hefyd wneud darpariaethau ar gyfer apelau yn erbyn sancsiynau sifil o'r fath.

### Prif gyngor yn arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon etc.

Adran 38 **pennu'r swyddogaethau hynny**. Nid yw prif gyngor mewn perthynas â'r ardoll yn swyddogaethau gweithredol.

Mae'r adran hon **yn darparu diffiniadau ar gyfer** "gweithrediaeth" a "trefniadau gweithrediaeth" ac yn ychwanegu swyddogaethau sy'n ymwneud â'r ardoll ymwelwyr at y rhestr o swyddogaethau nad ydynt i fod yn gyfrifoldeb i'r weithrediaeth yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) 2007.

## Rhan 4 – Darpariaeth amrywiol a chyffredinol

### Canllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru

Mae adran 39 **yn caniatáu i Weinidogion Cymru** ddyroddi canllawiau ynghylch y Bil ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y Bil. Os bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu cyhoeddi canllawiau, mae'r adran hon hefyd yn gosod dyletswydd arnynt i ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol.

Rhaid i brif gyngor **roi sylw** i unrhyw ganllawiau a ddyroddir o dan yr adran hon wrth ystyried a ddylid arfer swyddogaeth sy'n gysylltiedig â'i ardoll, neu wrth arfer swyddogaeth o'r fath.

### Pwer i estyn y Ddeddf i ddocfeydd ac angorfeydd

Mae adran 40 **yn datgan y** caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r Bil (os caiff ei ddeddfu) a Deddf 2016 i estyn yr ardoll (neu ofynion cofrestru) i ddocfeydd ac angorfeydd a ddarperir ar gyfer llestrau.

### Pŵer i wneud darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol etc.

Mae adran 41 **yn darparu y** caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaeth ddeilliadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed yn y Bil hwn.

### Rheoliadau o dan y Ddeddf hon

Mae adran 42 **yn gwneud darpariaeth gyffredinol** mewn perthynas â rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan y pwerau a gynigir yn y Bil.

### Dehongli

Mae adran 43 **yn darparu diffiniadau** a dehongliadau ar gyfer termau a ddefnyddir yn y Bil.

### Dod i rym

Mae adran 44 **yn datgan y bydd darpariaethau'r Bil** yn Rhannau 1, 3 a 4 **yn dod i rym** drannoeth y diwrnod y caiff y Bil y Cydsyniad Brenhinol. Bydd Rhan 2 yn dod i rym yn unol â gorchymyn cychwyn a wneir gan Weinidogion Cymru.

### Enw byr

Mae adran 45 **yn cadarnhau mai enw'r Bil** yw 'Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025'.

## Atodlen 1 – Diwygio Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Mae'r Atodlen **yn cynnwys diwygiadau** i Ddeddf 2016 i ganiatáu i ACC gasglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr. Mae hefyd yn cynnwys diwygiadau amrywiol eraill i Ddeddf 2016.

# 4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth

Mae'r **pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth** o dan y Bil wedi'u rhestru yn y Memorandwm. Mae'r Bil yn rhoi **20 pŵer** i Weinidogion Cymru i wneud Rheoliadau.

Mae **17 o bwerau** i'w harfer o dan **weithdrefn gadarnhaol ddrafft y Senedd**[1] (gydag un yn gofyn am y weithdrefn gadarnhaol ddrafft os yw'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol, fel arall mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol). Mae **3 phŵer** i'w harfer o dan y weithdrefn negyddol.

Mae **un pŵer** (gweler adran 39(1) o'r Bil) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddyroddi canllawiau ar y ddeddfwriaeth hon ac unrhyw reoliadau a wneir o dan y ddeddfwriaeth hon a Gweinidogion Cymru yn ymgynghori ag unrhyw bersonau y maent yn ystyried eu bod yn briodol cyn dyroddi unrhyw ganllawiau o'r fath. **Nid yw'n ofynnol dilyn unrhyw un o weithdrefnau'r Senedd**.

1 O dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft, ni all yr offeryn statudol gael ei ddeddfu nes bod y Senedd yn pleidleisio i'w gymeradwyo ac yna caiff ei ddeddfu gan Weinidogion Cymru. O dan y weithdrefn negyddol, caiff yr offeryn statudol ei ddeddfu'n awtomatig pan gaiff ei wneud gan Weinidogion Cymru, ond gall y Senedd bleidleisio i'w ddirymu o fewn 40 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod.

# 5. Adolygiad ar ôl gweithredu

Mae'r Memorandwm **yn nodi** y bydd yn anodd ymrwymo i gynnal adolygiad ffurfiol ar ôl gweithredu, am fod yr ardoll ymwelwyr yn ddisgresiynol ac am y gallai gymryd sawl blwyddyn i awdurdodau lleol benderfynu a ydynt am fabwysiadu ardoll yn eu hardal, ar ôl ymgynghori â'u cymunedau. Mae'r Memorandwm y**n ychwanegu**:

> … caiff effeithiolrwydd y cynllun yn cael ei fonitro a'i asesu dros amser ac mae'n debygol y bydd y ffordd y gwneir hyn yn datblygu wrth i'r cynllun ddatblygu ac wrth i dystiolaeth ddod i'r amlwg.

Fodd bynnag, **mae'n darparu gwybodaeth** am berfformiad yr ardoll a'r defnydd a wneir o refeniw gan awdurdodau lleol bob blwyddyn.

Caiff canlyniad y ddeddfwriaeth **ei fonitro'n barhaus hefyd**, gan ddefnyddio cyfuniad o ddulliau, gan gynnwys monitro economi Cymru a dangosyddion cyflenwad/galw, defnyddio data presennol a gesglir o arolygon perthnasol Croeso Cymru, y Baromedr Twristiaeth a gweithgarwch ymgysylltu ychwanegol ag awdurdodau lleol a'r sector twristiaeth er mwyn deall effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth.

Mae'r Memorandwm **hefyd yn nodi**:

> Rhagwelir y bydd ACC yn monitro ac yn adolygu'n barhaus pa mor effeithiol y gweinyddir y gofrestr a'r ardoll drwy ymgysylltu'n rheolaidd ag awdurdodau lleol a busnesau twristiaeth. Ochr yn ochr â hyn, bydd yn ystyried pa ddata y dylid adrodd arnynt, megis faint o refeniw a gasglwyd.

# 6. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r **Asesiad Effaith Rheoleiddiol ('yr Asesiad')** yn nodi crynodeb o'r costau dros gyfnod gwerthuso deng mlynedd, 2025-26 – 2034-35. Amcangyfrifir mai cyfanswm cost y Bil yw £313.9 miliwn i £576.6 miliwn. Mae'r Asesiad **yn nodi** nad oes unrhyw gostau ychwanegol i'r opsiwn busnes fel arfer.

**Tabl 1. Costau sy'n gysylltiedig â'r Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru)**

| Disgrifiad o'r gost | Cost (£ miliwn) |
|---|---|
| **Costau gweinyddol** | |
| Costau trosiannol | 7.7 – 10.6 |
| Costau rheolaidd | 22.9 – 32.0 |
| **Cyfanswm y costau** | **30.6 – 42.6** |
| **Costau cydymffurfio** | |
| Costau trosiannol | 5.2 – 38.7 |
| Costau rheolaidd | 278.1 – 495.3 |
| Cyfanswm y costau | 283.3 – 534.0 |
| **Cyfanswm costau'r Bil** | **313.9 – 576.6** |

Ffynhonnell: **Llywodraeth Cymru, Asesiad Effaith Rheoleiddiol, Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru), Tachwedd 2024**

Mae'r Asesiad **yn cynnig dau opsiwn** ar gyfer y dadansoddiad o gostau a manteision:

- **Opsiwn 1**: Busnes fel arfer.
- **Opsiwn 2**: Cyflwyno deddfwriaeth i roi pŵer disgresiynol i awdurdodau lleol i weithredu ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau dros nos mewn llety ymwelwyr ac i sefydlu cofrestr o ddarparwyr llety ymwelwyr (yr opsiwn a ffefrir)

Rhagwelir y bydd y costau sy'n gysylltiedig â'r Bil yn syrthio ar y rhanddeiliaid a ganlyn:

- darparwyr llety ymwelwyr;
- ymwelwyr;

- awdurdodau lleol;
- Llywodraeth Cymru; ac
- Awdurdod Cyllid Cymru.

## Darparwyr llety ymwelwyr

Mae'r Asesiad **yn nodi bod y costau cyfanredol untro** i ddarparwyr llety ymwelwyr presennol sy'n gysylltiedig â chofrestru yn amrywio rhwng £40,000 ac £815,000. Amcangyfrifir costau parhaus o rhwng £3,000 a £163,000 y flwyddyn.

Ar gyfer yr ardoll ymwelwyr, mae costau cyfanredol yn awgrymu uchafswm cost ymlaen llaw o rhwng £5.1 miliwn a £37.9 miliwn a chostau parhaus blynyddol o rhwng £1.76 miliwn a £28.8 miliwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at ansicrwydd y costau hyn, **gan nodi**:

> Mae'r union gostau yn ansicr iawn o ystyried diffyg unrhyw gymharydd uniongyrchol a'r ansicrwydd ynghylch union nifer y sefydliadau sy'n gweithredu yng Nghymru.

Mae'r Asesiad **yn tynnu sylw at y diffyg data sydd ar gael** ynghylch nifer y darparwyr llety ymwelwyr yng Nghymru. Mae'n **sôn bod hyn yn** "un o'r rhesymau dros gynnwys cofrestr o lety ymwelwyr yn y ddeddfwriaeth".

Mae'r Asesiad **yn amcangyfrif y costau** yn seiliedig ar rhwng 16,000 a 55,000 o ddarparwyr llety, sy'n golygu bod y costau amcangyfrifedig yn cael eu darparu fel ystod drwy gydol yr Asesiad.

Mae'r Asesiad **hefyd yn nodi** ei bod yn debygol mai dim ond rhai o'r awdurdodau lleol yng Nghymru a fydd yn cyflwyno ardoll ymwelwyr, gan fod y Bil yn cyflwyno pŵer disgresiynol i weithredu ardoll ymwelwyr ar gyfer arosiadau dros nos.

Mae Llywodraeth Cymru **yn nodi na fyddai'n** "briodol" iddi ragdybio y byddai penderfyniadau penodol yn cael eu gwneud gan awdurdodau lleol, ynghylch p'un a ddylid cyflwyno ardoll ymwelwyr yn eu hardal ai peidio, am ei hamcangyfrifon o oblygiadau ariannol y Bil. O ganlyniad, mae'r Asesiad **yn nodi**:

> Felly, er mwyn cyflwyno cost gyfanredol, rydym wedi darparu amcangyfrifon yn seiliedig ar bob un o'r 22 awdurdod lleol yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, pan nad yw'r canlyniad hwn yn debygol mewn gwirionedd. Cydnabyddir felly bod y costau a gyflwynir yn debygol o oramcangyfrif y gost wirioneddol.

## Ymwelwyr

Mae'r Bil yn deddfu **ar gyfer cyfradd sefydlog** sy'n seiliedig ar gyfradd fesul person, fesul noson o £0.75 y pen ar gyfer pebyll ar safleoedd gwersylla a llety ar ffurf hostelau a £1.25 y pen ar gyfer pob math arall o lety. Yn seiliedig ar ragdybiaethau bod yr ardoll yn cael ei gweithredu gan bob awdurdod lleol yng Nghymru, mae'r Asesiad **yn amcangyfrif y gallai'r ardoll** godi refeniw gwerth hyd at £33 miliwn y flwyddyn, a fyddai'n cael ei ysgwyddo gan ymwelwyr.

Mae'r Asesiad **yn cynnwys enghreifftiau o gostau** i ymwelwyr mewn senarios gwahanol: mae teithiwr unigol sy'n aros mewn hostel neu safle gwersylla am 7 noson yn talu £6.30 ychwanegol gan gynnwys TAW, a byddai teulu o 4 sy'n aros am 7 noson yn talu cost ychwanegol o £25.20 gan gynnwys TAW.

Byddai teithiwr unigol sy'n aros mewn unrhyw lety arall, fel gwesty neu dai llety, am 7 noson yn talu £10.50 ychwanegol gan gynnwys TAW a byddai teulu o 4 yn talu £42 ychwanegol gan gynnwys TAW.

## Awdurdodau lleol

Mae'r Bil **yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol** ymgynghori ac asesu effeithiau cyn iddynt wneud penderfyniad i roi ardoll ymwelwyr ar waith. Mae gofyniad am gyfnod hysbysu o 12 mis ar gyfer darparwyr llety ac ymwelwyr (y gellid ei fyrhau drwy gytundeb rhwng y prif awdurdod ac ACC).

Mae'r Asesiad **yn nodi**:

> Amcangyfrifwyd costau i awdurdodau lleol drwy ymarfer ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol unigol, er mwyn nodi a chadarnhau ystod o amcangyfrifon cychwynnol ar gyfer y costau gweinyddu a'r costau cydymffurfio tebygol sy'n gysylltiedig ag ardoll ymwelwyr.

Mae'r Asesiad **yn nodi, pe bai pob un o'r 22 awdurdod lleol** yn ymgynghori ar yr ardoll ac yn ei gweithredu, y byddai'r costau gweinyddu ymlaen llaw rhwng £220,000 ac £880,000, ac y byddai costau parhaus blynyddol rhwng £22,000 a £110,000. Mae Llywodraeth Cymru **yn nodi** bod hyn yn debygol o fod yn oramcangyfrif gan na fydd pob awdurdod lleol yn gweithredu'r ardoll.

Y **gost gyfunol** ar gyfer awdurdodau lleol yw: £0.396 miliwn - £1.76 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd rhwng 2025 a 2035, a rhagdybir y bydd costau untro yn cael eu talu yn 2025-26 a 2026-27 ac y bydd costau parhaus blynyddol yn cael eu talu yn 2027-28 (h.y. 8 mlynedd o'r cyfnod gwerthuso).

Mae Llywodraeth Cymru **hefyd yn nodi** rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r costau i awdurdodau lleol:

> Mae cost unrhyw ymarfer ymgynghori yn debygol o amrywio yn dibynnu ar fformat yr ymgynghoriad, nifer y cwestiynau a ofynnir, nifer yr ymatebion a geir, nifer yr ymgysylltiadau wyneb yn wyneb a gynhelir ac a gaiff yr ymgynghoriad ei gynnal yn fewnol neu ei osod ar gontract allanol i drydydd parti. Felly, mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â'r costau a allai godi i awdurdod lleol penodol.

Mae'n **ychwanegu**:

> Bydd y gofyniad i gynnal asesiadau effaith hefyd yn ychwanegu at y costau i awdurdodau lleol sy'n gysylltiedig â gwneud penderfyniadau.

## Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru **yn mynd i** gostau pontio ar gyfer:

- llunio canllawiau i awdurdodau lleol ar roi'r ardoll ymwelwyr ar waith;
- gweithgarwch cyfathrebu a marchnata ar gyfer cofrestru a'r ardoll ymwelwyr; a
- monitro a gwerthuso ar ôl gweithredu.

Mae'r Asesiad **yn amcangyfrif y bydd cyfanswm y costau pontio** er mwyn i Lywodraeth Cymru ddatblygu canllawiau, cynnal ymgyrch cyfathrebu a marchnata a chynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu yn amrywio o £0.254 miliwn i £0.764 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd, rhwng 2025 a 2035. Mae hyn yn adlewyrchu costau sy'n amrywio o £94,000 i £154,000 yn 2025-2026, hyd at £50,000 yn 2026-27 a rhwng £20,000 a £70,000 y flwyddyn o 2027-2028 ymlaen.

Mae rhan o'r costau hyn **yn cynnwys ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus** ar gyfer y cynllun cofrestru, a fyddai'n costio tua £50,000 - £100,000, yn seiliedig ar ymgyrchoedd eraill Llywodraeth Cymru ar yr un raddfa.

Mae angen cyllideb o tua £30,000 - £50,000 **i gefnogi** gweithgarwch cyfathrebu ac ymgyrchoedd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gyhoeddus ar gyfer awdurdodau lleol a ddewisodd roi'r ardoll ar waith. Disgwylir y bydd hyn yn gost flynyddol yr eir iddi o 2026-27 ymlaen.

## Awdurdod Cyllid Cymru

Amcangyfrifir bod cyfanswm y **costau gweinyddu** i ACC sy'n gysylltiedig â datblygu, casglu a rheoli'r ardoll dros gyfnod o 10 mlynedd yn amrywio rhwng £17.123 miliwn a £22.670 miliwn. Mae'r Asesiad **yn nodi** "[er] y bwriedir i'r gofrestr fod yn un o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y caiff ei dirprwyo i ACC, awgrymwyd y gallai cyfanswm y costau sy'n gysylltiedig â datblygu a gweithredu'r gofrestr dros gyfnod o 10 mlynedd amrywio rhwng £12.823m a £17.402m".

Felly, mae'r **gost gyfunol** ar gyfer casglu a rheoli'r ardoll ymwelwyr a gweithredu a chynnal a chadw'r gofrestr yn amrywio o £29.946 miliwn i £40.072 miliwn dros gyfnod o 10 mlynedd, rhwng 2025 a 2035.

## Costau ac anfanteision heb eu meintioli

Mae'r Asesiad **yn nodi** "[g]allai fod lleihad yn nifer yr ymwelwyr â Chymru neu ag awdurdod lleol penodol sy'n mabwysiadu'r ardoll (yr effaith ar y galw). Ni ellir mesur hyn yn gywir". Fodd bynnag, mae'r Asesiad **yn rhagdybio y byddai hyn yn cael ei wrthbwyso** gan y refeniw ychwanegol a godir gan yr ardoll.

## Manteision

Mae'r Asesiad **yn nodi mantais benodol** gwerth £264 miliwn, sy'n seiliedig ar y refeniw amcangyfrifedig a ragwelir o hyd at £33 miliwn y flwyddyn a gynhyrchir gan yr ardoll. **Rhagdybir y bydd pob awdurdod lleol** yng Nghymru yn gweithredu'r ardoll ymwelwyr ac o 2027-28 ar y cynharaf, ac felly'n gweithredu dros 8 mlynedd o'r cyfnod gwerthuso deng mlynedd.

Mae'r Memorandwm **yn datgan bod yr amcangyfrif** o £33 miliwn y flwyddyn mewn refeniw a godir gan yr ardoll ymwelwyr yn seiliedig ar ddata ynghylch nifer y nosweithiau a dreulir gan ymwelwyr rhyngwladol a domestig yng Nghymru, fel y cofnodir ym mhroffiliau twristiaeth rhanbarthol a lleol Llywodraeth Cymru.

# 7. Craffu ar y Bil

Gwnaeth Llywodraeth Cymru **gyhoeddi datganiad ysgrifenedig** wrth gyflwyno'r Bil ar 25 Tachwedd 2024 a rhoddodd Ysgrifennydd y Cabinet **ddatganiad llafar** yn y Cyfarfod Llawn ar 26 Tachwedd 2024.

Mae pedwar cyfnod i broses y Senedd o graffu ar Filiau, ac fe'u hesbonnir yn y **Canllaw i'r Broses Ddeddfu**.

## Cyfnod 1

Gwnaeth Pwyllgor Busnes y Senedd **gyfeirio'r Bil** at y Pwyllgor Cyllid, gan nodi y dylid cyflwyno adroddiad ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn 21 Mawrth 2025.

Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid **lansio ymgynghoriad** ar y Bil, sy'n rhedeg tan 10 Ionawr 2025. Gwnaeth y Pwyllgor **gynnal sesiwn dystiolaeth lafar** gydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 5 Rhagfyr 2024 a bydd yn clywed tystiolaeth gan randdeiliaid ym mis Ionawr a mis Chwefror 2025.

Mae rhagor o wybodaeth am y broses craffu ar y Bil ar gael ar **dudalen we'r Bil**.

Bydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad hefyd **yn craffu ar ddarpariaethau'r Bil** a bydd yn llunio ei adroddiad ei hun.

## Cyfnod 2 a thu hwnt

Os bydd y Bil yn mynd rhagddo y tu hwnt i'w ddadl Cyfnod 1 a bod yr Aelodau o'r Senedd yn cefnogi'r egwyddorion cyffredinol, bydd yn destun **gwelliannau yng Nghyfnod 2**. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn ystyried y gwelliannau hyn. Mae **amserlen y Pwyllgor Busnes ar gyfer y Bil** yn nodi y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 6 Mehefin 2025.

Yna, bydd y Bil **yn destun gwelliannau pellach** gan yr holl Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn (Cyfnod 3) cyn y bleidlais derfynol ynghylch a ddylid pasio'r ddeddfwriaeth (Cyfnod 4).